# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-04-07)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 1 Mawrth 2007
### Amser y cyfarfod: 9.30 am - 12.20pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Ken Alexander | Pennaeth y Gangen Gwella Ansawdd a Diogelwch |
| Hugh Bennett | Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol |
| Peter Farley | Pennaeth yr Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd |
| Gareth Griffiths | Pennaeth y Gangen Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor |
| Sian Marie James | Pennaeth y Tîm Cynllunio Strategol a Blaenoriaethau |
| Dr Tony Jewell | Prif Swyddog Meddygol |

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Karen Morgan | Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu |
| Mike Shanahan | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hyn a Gofal Hirdymor |
| Dr Sarah Watkins | Uwch-Swyddog Meddygol |

## Yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| David Groves | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Laura Jerram | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Hilary Neathey | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Joy Whinney | Asiantaeth Safonau Bwyd |

## Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Catherine Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Cynulliad |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Karen Sinclair. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog
## HSS(2)-04-07(p1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad ac ymatebodd i gwestiynau gan Aelodau’r pwyllgor.

**Camau i’w cymryd**

- Bydd y Gweinidog yn trafod y pryderon a godwyd gan Helen Mary Jones ynghylch y System Plant Integredig gyda’r swyddogion sy’n datblygu Hysbysu Gofal Cymdeithasol a bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor gydag ymateb.
- Bydd y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad i’w gyflwyno i’r Trydydd Cynulliad y dylai unrhyw Bwyllgor sy’n ei olynu ystyried y broses o werthuso a thrwyddedu cyffuriau newydd, a rôl NICE a Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

**Eitem 3: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**HSS(2)-04-07(p2a) a HSS(2)-04-07(p2b)**

3.1 Ni nododd yr Aelodau unrhyw eitemau o’r rhestr o Is-ddeddfwriaeth i graffu arnynt.

**Eitem 4: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Diwygio) 2007**
**HSS(2)-04-07(p3a) a HSS(2)-04-07(p3b)**

4.1 Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

**Cam i’w gymryd**

- Adroddiad y Pwyllgor i’w gyflwyno a’r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2007**
**HSS(2)-04-07(p4a) a HSS(2)-04-07(p4b)**

5.1 Bu craffu ar y rheoliadau yn unol â’r protocol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth, lle mae aelodau’n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau sydd ganddynt neu welliannau yr hoffent eu gwneud. Cynigiwyd dau welliant.

**Gwelliant 1 – cynigiwyd gan Helen Mary Jones AC**

Yn adran 4: bydd y ffigwr ‘'£50,000' yn Cymryd lle’r ffigwr '£22,000'.

**Pleidleisiodd yr Aelod canlynol o blaid:**

Helen Mary Jones

**Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn**

Brian Gibbons
John Griffiths
Lynne Neagle

**Ymataliodd yr Aelodau canlynol:**

Jonathan Morgan
Jenny Randerson

5.2 Gwrthodwyd gwelliant 1.

**Gwelliant 2 – cynigiwyd gan Helen Mary Jones AC**

Yn adran 5: bydd y ffigwr '£50,000' yn cymryd lle’r ffigwr '£22,000'.

**Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:**

Helen Mary Jones

**Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:**

Brian Gibbons
John Griffiths
Lynne Neagle

**Ymataliodd yr Aelodau canlynol:**

Jonathan Morgan
Jenny Randerson

5.3 Gwrthodwyd Gwelliant 2.

**Cam i’w gymryd**

- Adroddiad y Pwyllgor i’w gyflwyno a’r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 6: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 2007**
**HSS(2)-04-07(p5a) a HSS(2)-04-07(p5b)**

6.1 Ymatebodd y Gweinidog i bwyntiau o esboniad a godwyd gan aelodau’r Pwyllgor.

**Cam i’w gymryd**

- Adroddiad y Pwyllgor i’w gyflwyno a’r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 7: Practisau Deintyddol Preifat – Adroddiad Dichonoldeb o dan Reol Sefydlog 31**
**HSS(2)-04-07(p6)**

7.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

**Eitem 8: Cyflwyniad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
**HSS(2)-04-07(p7)**

8.1 Rhoddodd Joy Whinney a Hilary Neathey gyflwyniad i’r Pwyllgor ar labelu bwyd ac ymatebodd i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

**Eitem 9: Adroddiad y Comisiwn Hawliau Anabledd ar Anghydraddoldebau Iechyd**
**HSS(2)-04-07(p8)**

9.1 Ymatebodd y Gweinidog a’i swyddogion i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor a’r cynrychiolwyr o’r Comisiwn Hawliau Anabledd.

**Camau i’w cymryd**

- Bydd y Gweinidog yn darparu ffigurau penodol ar yr enghreifftiau lle rhoddwyd blaenoriaeth i wneud i bractisau meddygon teulu gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd wrth roi grantiau gwelliannau ar gyfer adeiladau meddygon teulu.
- Bydd y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad i’w gyflwyno i’r Trydydd Cynulliad bod unrhyw Bwyllgor sy’n ei olynu yn parhau i fonitro ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r adroddiad ac argymhellion panel y Comisiwn Hawliau Anabledd a fydd yn cael ei sefydlu i hyrwyddo’r ymateb.

**Papurau i’w Nodi**

Gweithredu Fformiwla Townsend
HSS(2)-04-07(p9)

Trosglwyddiadau yn ystod y Flwyddyn
HSS(2)-04-07(p10)

Y ddiweddaraf ar y Refeniw a godwyd gan Ymddiriedolaethau GIG trwy Daliadau Teleffon
HSS(2)-04-07(p11)

**Cam i'w gymryd**

- Bydd y gweinidog yn darparu papur yn rhoi manylion am yr incwm a godwyd gan Ymddiriedolaethau GIG yn benodol drwy patientline.

Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd
HSS(2)-04-07(p12)

Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar Bracytherapi
HSS(2)-04-07(p13)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror
HSS(2)-03-07(min)

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2007